

Cytundeb Partneriaeth Ynys Môn rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Trydydd Sector

Rhagarweiniad

Cytundeb Partneriaeth yw hwn rhwng y trydydd sector a'r awdurdod lleol ar Ynys Môn. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer datblygu nodau ac amcanion cyffredin, ynghyd â meithrin parch cyd-rhwng y naill a'r llall a chyd-ddealltwriaeth a fydd yn cynorthwyo'r Awdurdod a'i bartneriaid yn y trydydd sector i wella ansawdd bywyd i bobl Ynys Môn. 'Rydym yn cydnabod y gallwn gyflawni mwy i bobl a chymunedau Ynys Môn trwy weithio gyda'n gilydd, yn enwedig mewn cyfnodau o gyfyngiadau ariannol.

Mae'r cytundeb partneriaeth hwn a'n partneriaeth yn chwarae rôl hollbwysig o ran cefnogi amcanion corfforaethol y Cyngor. Mae ein partneriaid trydydd sector yn tueddu i fod 'mewn cysylltiad' â'r gymuned ac maent yn chwarae rôl allweddol o ran hwyluso cyfranogiad dinasyddion, gan ymgysylltu â nhw ynghylch dylunio, darparu a gwella'r holl wasanaethau cyhoeddus.

Bwriad y Cytundeb Partneriaeth yw arwain y broses o weithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae gan Bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol rôl bwysig wrth weithredu Cytundeb Partneriaeth Ynys Môn

Cytunodd y partneriaid y byddai'r Cytundeb Partneriaeth hwn yn dod i rym ar 1 Ebrill 2020. Caiff ei adolygu a'i ddiwygio bob dwy flynedd.

Rôl Medrwn Môn

Bydd Medrwn Môn yn gyd-lofnodwyr y cytundeb partneriaeth. Nhw yw'r sefydliad ymbarél sy'n cefnogi, hyrwyddo a chynghori sefydliadau gwirfoddol a chymunedol lleol. Maent yn cefnogi gweithredu gwirfoddol trwy gefnogi gwirfoddoli, cynghori ar arfer da, darparu gwybodaeth am ffynonellau cyllido ynghyd ag ystod eang o wasanaethau eraill.

Mae'r term 'Trydydd Sector' y cyfeirir ato yn y ddogfen hon yn ymgorffori sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a chyrrff gwirfoddoli gan gynnwys elusennau ledled y DU a'u canghennau lleol, sefydliadau sirol, grwpiau cymunedol anffurfiol, mentrau cymdeithasol, cydweithfeydd a grwpiau cefnogaeth hunangymorth.

Bydd y cytundeb partneriaeth yn rhoi cyfleoedd i glywed llais y Trydydd Sector a'i ddefnyddwyr gwasanaeth, gan sicrhau y cydnabyddir effaith sylweddol cyfraniad y sefydliadau gwirfoddol ar unigolion yn Ynys Môn.

Nodau'r Cytundeb Partneriaeth

Trwy'r Cytundeb Partneriaeth, byddwn yn datblygu'r bartneriaeth rhwng yr awdurdod lleol a'r trydydd sector ar Ynys Môn trwy ein helpu i: -

- Gyfathrebu'n well â'n gilydd;
- Deall a pharchu barn ein gilydd;

- Cydweithio'n fwy effeithiol i gefnogi pobl Ynys Môn a datblygu gwasanaethau ar y cyd.

'Rydym yn rhannu nod o ddarparu gwasanaethau o ansawdd i bobl Ynys Môn. 'Rydym yn cydnabod bod gwerth ychwanegol mewn gweithio mewn partneriaeth tuag at nodau ac amcanion cyffredin. Mae gweithredu gwirfoddol a chynnwys y gymuned yn rhan hanfodol o gymdeithas gynhwysol a democrataidd ac yn ychwanegu gwerth at ansawdd bywyd yn Ynys Môn. Cydnabyddir bod y trydydd sector yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddatblygiad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Ynys Môn. Dylid parchu a gwerthfawrogi'r amrywiaeth a'r gwahaniaethau rhwng y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae gan bob sector ei gyfrifoldebau a'i gyfyngiadau ei hun. Bydd ffocws allweddol ein gwaith partneriaeth ar y budd ehangach i Ynys Môn a'i dinasyddion. Dyna fydd y prif ffocws a bydd yr ystyriaeth honno'n cael blaenoriaeth dros y rhaglenni unigol yn ystod ein gwaith partneriaeth gyda'n gilydd.

Bydd y berthynas rhwng y sectorau yn agored ac yn barchus ac yn dangos ymddiriedaeth. Dylai pob sector ymgynghraedd at ragoriaeth, mynediad cyfartal a chofleidio egwyddorion datblygu cynaliadwy. Wrth weithio gyda'n gilydd, dylid rhoi ystyriaeth a pharch cyfartal i gyfraniadau gan bob sector. Mae gan sefydliadau ym mhob sector yr hawl i gyfrannu at faterion sy'n effeithio arny'n nhw a'u herio.

Gyda'n gilydd, trwy'r cytundeb partneriaeth hwn, byddwn yn:

- Helpu i feithrin trydydd sector ffyniannus, amrywiol ac annibynnol ar Ynys Môn gyda threfniadau cyllido a chontractio sy'n cydymffurfio â'r gyfraith a gweithdrefnau ariannol;
- Hyrwyddo llywodraethu a rheolaeth effeithiol o'r awdurdod lleol a'r trydydd sector. Bydd yn sail i ymrwymiad ar y cyd i adeiladu capasiti'r sefydliadau trydydd sector lle mae hynny'n gyson â chyfeiriad strategol a rennir;
- Helpu i sicrhau bod y trydydd sector nid yn unig yn cymryd rhan mewn strwythurau cydweithio a phartneriaeth ond ei fod yn cael dylanwad gwirioneddol ar gynllunio a datblygu gwasanaethau lleol a mentrau cyhoeddus;
- Parhau i ddatblygu Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol fel mecanwaith cyswllt sydd wedi'i integreiddio gyda phrosesau gwneud penderfyniadau'r sector cyhoeddus a'r maes cydgyllunio ehangach. Bydd gan y Pwyllgor gynrychiolaeth o blith partneriaid o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector;
- Annog pob sector i ddysgu o arfer gorau a cheisio gwelliant parhaus wrth gynllunio a darparu gwasanaethau;
- Wrth nodi nad corff unedol yw'r trydydd sector, rhagwelir y bydd gan bob cynrychiolydd yr awdurdod priodol i fynd ar ôl unrhyw achosion posib o dorri'r Compact yn eu sectorau eu hunain. Yn achos y partneriaid sector cyhoeddus, bydd ganddynt yr awdurdod i geisio datrysiad ar lefel uwch os bydd angen;

- Datblygu cynllun gweithredu ar y cyd i gyflawni amcanion y Cytundeb Partneriaeth a chynhyrchu adroddiad cynnydd blynyddol i'r awdurdod lleol a Medrwn Môn i'w ddosbarthu i sefydliadau'r trydydd sector;
- Helpu i sicrhau cydnabyddiaeth ehangach a mwy cynaliadwy o werth cymdeithasol gwirfoddoli, o ran datblygiad personol a phroffesiynol y gwirfoddolwr a'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir.

Ymrwymadau'r Partneriaid

Bydd yr awdurdod lleol a'r trydydd sector yn cynorthwyo i ddatblygu, gweithredu a monitro'r Cytundeb Partneriaeth, yn unol â'r nod a'r egwyddorion y cytunwyd arnynt. Byddwn hefyd yn gweithredu gofynion Côt Ymarfer Ynys Môn ar Ariannu'r Trydydd Sector a gofynion y Polisi Gwirfoddoli fel y cymeradwyir nhw gan y Pwyllgor Gwaith yng Ngwanwyn 2020 . Bydd y gefnogaeth hon yn cynnwys: -

- Mae'r partneriaid yn ymrwymo i gynnal safonau uchel o lywodraethu ac ymddygiad ac i gwrdd â rhwymedigaethau adrodd ac atebolrwydd i gyllidwyr a defnyddwyr;
- Anogir y partneriaid i ddatblygu safonau ansawdd sy'n briodol i'r sefydliad, gan gynnwys hyrwyddo arfer gorau a chyfle cyfartal yn y meysydd gweithgareddau, cyflogaeth, cyfranogiad gwirfoddolwyr a darpariaeth gwasanaethau;
- Bydd y partneriaid yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth lle bynnag y bo modd a gofalwyr lle bo hynny'n briodol wrth ddatblygu a rheoli gweithgareddau a gwasanaethau; adroddir i'r awdurdod lleol ar atborth a gafwyd i ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan y trydydd sector gyda defnyddwyr gwasanaeth er mwyn cefnogi cynllunio a darparu gwasanaethau;
- Bydd y partneriaid yn sicrhau bod staff allweddol yn gallu cymryd rhan mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth i gefnogi'r Cytundeb Partneriaeth hwn;
- Mae'r partneriaid yn cymeradwyo'r angen am weithdrefnau ar gyfer datrys anghytundebau;
- Bydd y partneriaid yn adolygu gweithrediad y cytundeb partneriaeth bob dwy flynedd;
- Rhaid i bob partner ofyn am ganiatâd y swyddog enwebedig ymlaen llaw os cynigir unrhyw gyllid fel cyllid cyfatebol ar gyfer unrhyw ffrwd ariannu arall;
- Mae'r partneriaid yn ymrwymo i barchu a bod yn atebol i'r gyfraith. Yn achos elusennau trydydd sector, byddant yn glynu wrth y fframwaith cyfrifyddu a chanllawiau priodol eraill fel y nodwyd nhw gan y Comisiwn Elusennau a chyrrff rheoleiddio eraill.

Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Bydd Ynys Môn a Medrwn Môn yn gweithredu yn unol â deg egwyddor ymgysylltu Cyfranogiad Cymru. Mae gan yr awdurdod lleol fwrdd ymgysylltu ac ymgynghori ar y cyd gyda Medrwn Môn i sicrhau trosolwg o sut bydd yr awdurdod yn ymgysylltu ac yn

ymgyngori ac i bwrpas sicrhau cysondeb ac ansawdd y gweithgareddau gydag ystod o randdeiliaid.

Digwyddiad Ymgysylltu Blynnyddol

Bob blwyddyn bydd yr Awdurdod Lleol a Medrwn Môn yn cynnal cyfarfod ymgysylltu gyda sefydliadau'r trydydd sector ar Ynys Môn. Bydd y digwyddiad hwn yn agored i bawb ac ni fydd yn gyfyngedig i sefydliadau sy'n gysylltiedig â Medrwn Môn.

Bydd yr Awdurdod Lleol a Medrwn Môn yn trefnu digwyddiad i ymgysylltu â sefydliadau'r trydydd sector. Yn y digwyddiad byddwn yn:

- Rhannu amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod ac yn amlinellu blaenoriaethau'r nesaf.
- Cymryd ac ymateb i gwestiynau ar bob un o'r uchod.
- Cymryd cwestiynau cyffredinol ac ymateb iddynt

Cronfa Ddata'r Trydydd Sector o Gysylltiadau.

Bydd Medrwn Môn yn cynnal cronfa ddata o gysylltiadau cymunedol er mwyn cyfleu gwybodaeth berthnasol i bobl yn y cymunedau lleol. Argymhellir bod pob sefydliad trydydd sector yn cofrestru eu manylion gyda Medrwn Môn er mwyn derbyn diweddariadau a gwybodaeth berthnasol ynghylch materion lleol.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Bydd yr Awdurdod Lleol, Medrwn Môn a'r trydydd sector yn glynu wrth ddarpariaethau Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal gan y Gwasanaethau.

Anghydfodau a Phryderon

Os oes gan yr Awdurdod Lleol neu Medrwn Môn, naill ai ar y cyd neu'n unigol, bryderon ynghylch gweithredu'r Cytundeb Partneriaeth, byddant yn cytuno i gymryd rhan mewn cyfarfodydd cyfryngu i'w datrys naill ai'n anffurfiol neu'n ffurfiol gan Bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol.

Trefniadau Llywodraethu

Bydd gan yr Awdurdod Lleol a Medrwn Môn drefniadau llywodraethu er mwyn cyflawni'r cytundeb partneriaeth ac i warchod unigolion a staff. Trafodir unrhyw bryderon ac anghydfodau ym Mhwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol.

Adolygiad

Bydd yr awdurdod lleol a Medrwn Môn yn adolygu perfformiad ac effeithiolrwydd y cytundeb partneriaeth bob dwy flynedd.